

Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020

1. Dyma ymateb y Llywodraeth i adroddiad drafft y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad dyddiedig 30 Medi 2020.

Pwyntiau craffu ar rinweddau:

Pwynt 3.1: cyflymder newidiadau i'r Rheoliadau

2. Mae'r Adroddiad drafft yn nodi bod amllder diwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau") yn ei gwneud yn anodd i'r cyhoedd ddilyn y sefyllfa gyfreithiol gyfredol.
3. O dan yr amgylchiadau eithriadol sydd ohoni, mae angen taro cydbwysedd rhwng sicrhau bod y gyfraith mor glir a hygyrch â phosibl a gwneud newidiadau cyflym i'r ddeddfwriaeth pan fydd amgylchiadau pandemig y coronafeirws yn newid (i gyflwyno cyfyngiadau pan fo'n angenrheidiol o safbwynt iechyd y cyhoedd ac i lacio cyfyngiadau cyn gynted â phosibl pan fo'n gymesur gwneud hynny, er mwyn osgoi gosod cyfyngiadau ar y cyhoedd am unrhyw gyfnod sy'n hwy nag y bo'n angenrheidiol). Er mwyn hwyluso hygyrchedd, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o'r prif Reoliadau sy'n cael ei diweddarau ar ôl pob diwygiad (<https://llyw.cymru/rheoliadau-diogelu-iechyd-cyfyngiadau-coronafeirws-rhif-2-cymru-2020-fel-yu-diwygiwyd>). Gwneir y diweddariadau hynny ar y diwrnod y gwneir Rheoliadau diwygio er mwyn sicrhau bod gan y cyhoedd fynediad at y Rheoliadau diweddaraf cyn gynted â phosibl. Mae Llywodraeth Cymru yn deall nad yw'r arfer hon yn cael ei hatgynhyrchu mewn manau eraill yn y Deyrnas Unedig.

Pwynt 3.2(a): Rheoliad 12B(5)

4. Mae'r Adroddiad drafft yn nodi bod rheoliad 12B(5) yn parhau i fod yn y prif Reoliadau er bod rheoliad 12B(3)(b) wedi ei ddirymu. Mae hyn wedi ei gywiro yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2020 a wnaed ar 2 Hydref 2020.

Pwynt 3.2(b): Amseru adolygu cyfyngiadau lleol

5. Mae'r Adroddiad drafft yn ceisio eglurhad o ran yr amserlenni ar gyfer adolygu cyfyngiadau lleol, yn benodol yng ngoleuni cyflwyno cyfyngiadau lleol a osodwyd ym Mlaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Chasnewydd ar 22 Medi a'r ffaith bod yr adolygiad cyntaf o gyfyngiadau lleol yn ofynnol erbyn 24 Medi. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn bwysig bod pob ardal sy'n ddarostyngedig i gyfyngiadau lleol yn cael ei hadolygu ar sail yr un cylch o 7 niwrnod. Gall hynny arwain at gynnal yr adolygiad cyntaf mewn cysylltiad â rhai ardaloedd yn fuan iawn ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu gosod.

6. Er ei bod yn debygol iawn na fyddai adolygiad cynnar o'r fath yn arwain at unrhyw newid (gan na fyddai unrhyw amser i asesu effaith y cyfyngiadau mewn ffordd ddibynadwy), mae Llywodraeth Cymru yn ystyried, serch hynny, ei bod yn bwysig cynnal cylch adolygu cyson sy'n gorbwysu'r anfantais o gynnal adolygiad diangen, yn ôl pob golwg, o'r cyfyngiadau a gyflwynwyd yn ddiweddar.